# THOMAS, THOMAS (1880 - 1911), paffiwr

**Enw:** Thomas Thomas
**Dyddiad geni:** 1880
**Dyddiad marw:** 1911
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** paffiwr
**Maes gweithgaredd:** Chwaraeon a Gweithgareddau Hamdden
**Awdur:** Moelwyn Idwal Williams

Ganwyd 8 Ebrill 1880 yng nghartref ei fam yng Nglynarthen, Ceredigion, ac fe'i magwyd ar fferm Carncelyn, Penygraig, Rhondda. Dechreuodd ei yrfa ar hyd y ffordd anodd, yn teithio o le i le â bwth paffio gyda James Driscoll a ' Freddie Welsh ' (F. H. Thomas). Ei brif ddull o'i baratoi ei hun ar gyfer ymladd oedd marchogaeth ar gefn ceffyl heb gyfrwy, a hyn, gan amlaf, ar hyd y bryniau uwchben Penygraig. Cynilodd bob ceiniog o'i enillion, ac er mwyn arbed talu arian am sparring partners, ymladdai â tharw o'r enw 'Billy One-horn.'

Ar ôl dyfod yn gampwr trymbwys y Rhondda, aeth Thomas i Lundain ac enillodd y gystadleuaeth ganolbwys yn y National Sporting Club. Yn 1899 enillodd bedair buddugoliaeth ychwanegol. Ond ei ymladdfa lwyddiannus gyntaf o bwys oedd honno ym Mai 1906 yn erbyn y Gwyddel, Pat O'Keefe. Pan gynigiwyd y ' Lonsdale Belt ' gyntaf i'r dosbarth o baffwyr canolbwys yn 1909, rhoddwyd ef i ymladd â Charlie Wilson, a churodd ef o fewn dwy rownd. Thomas felly oedd y cyntaf ym Mhrydain i ddal y ' Lonsdale Belt ' yn ei ddosbarth (canolbwys).

Bu farw 13 Awst 1911 yng Ngharncelyn o drawiad ar y galon yn sgil niwmonia.

## Awdur

**Dr Moelwyn Idwal Williams**

## Ffynonellau


*Boxing News world's premier fight weekly*, 20 Awst 1947, 5

*Western Mail*, 14 Awst 1911 a 2 Rhagfyr 1949 ('Former Welsh Boxing Champions,' rhif 11, gan Tudor James)


## Darllen Pellach


Death of Great Boxer, The Rhondda Leader, 19 Awst 1911, t.1

Funeral of Tom Thomas, The Rhondda Leader, 26 Awst 1911, t.6

Noted Boxer's Will, The Rhondda Leader, 28 Hydref 1911, t.3

BoxRec: Tom Thomas

Erthygl Wicipedia: Thomas Thomas (paffiwr)


## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q7794427


**Dyddiad cyhoeddi:** 1953



**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu